

Ewch ar daith gyda'r cerdyn call newydd ar gyfer teithio

Cynllun Teithio Rhad Cymru Gyfan



Concessionary Travel Pass
Cerdyn Teithio Rhatach

name/enw

serial no/rhif cyfresol

Picture Here

Wrexham
COUNTY BOROUGH
BARDDEISTREF SIORS
WRECSAM

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Newydd ar gyfer teithio

Mae Cynllun Teithio Rhad Cymru Gyfan, a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Awdurdodau Lleol, yn galluogi pobl dros 60 oed a phobl â rhai anableddau sy'n byw yng Nghymru i deithio am ddim ar wasanaethau bws lleol ym mhob rhan o Gymru.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'ch Awdurdod Lleol yn cyflwyno cerdyn newydd a fydd yn cymryd lle'r holl Gardiau Teithio Rhad presennol. Ni fydd cyflwyno'r cerdyn newydd yn effeithio ar eich hawl i deithio. Mae'r daflen hon yn egluro sut y gallwch ddefnyddio eich cerdyn newydd, ac mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth arall a fydd yn ddefnyddiol i chi.

Defnyddio'ch cerdyn wrth deithio

Mae eich Cerdyn Teithio Rhad newydd yn Gerdyn Call. Mae'n cynnwys sglodyn electronig bach a fydd yn cael ei ddefnyddio i gadarnhau eich hawl i docynnau rhad. Mae hefyd yn helpu i sicrhau y bydd y cwmni bysiau yn cael ei ad-dalu am eich taith.

Cofiwch gadw'ch cerdyn mewn lle diogel lle na fydd yn cael ei blygu na'i ddifrodi.

Os na fydd eich cerdyn yn gweithio bydd yn rhaid i chi dalu'r pris llawn ac yna cysylltu â'ch Awdurdod Lleol am gymorth

Pan fyddwch yn teithio ar fws, dyma bedwar cam syml a fydd yn helpu'r gyrrwr

1. Ewch ar y bws.
2. Bydd angen i chi ddal y cerdyn yn agos at y peiriant tocynnau, gyda'ch llun yn wynebu i fyny. Bydd y peiriant yn cofrestru'r cerdyn yn electronig fel cerdyn dilys.
3. Bydd y peiriant tocynnau yn cydnabod bod y cerdyn wedi'i ddarllen a bydd yn ymateb drwy wneud sw^n bach, dangos golau gwyrdd neu, o bosib, roi tocyn i chi.
4. Ewch i eistedd.

Defnyddio cerdyn teithio

NI CHEWCH DROSLWYDDO Cardiau Teithio Rhad, a dim ond deiliad y cerdyn fydd yn cael teithio am ddim. Os oes cerdyn Cydymaith wedi'i roi, bydd rhaid i'r Cydymaith deithio yr un pryd ac ar yr un daith â deiliad y cerdyn teithio rhad.

Os byddwch yn gadael i rywun arall ddefnyddio'ch cerdyn, mae'n bosibl y bydd eich cerdyn yn cael ei ganslo a/neu y bydd eich cais i'w adnewyddu yn cael ei wrthod.

Os byddwch yn colli eich cerdyn, efallai y bydd gofyn i chi dalu am un newydd.

Amodau eraill

Bydd gofyn i chi gadw at reolau ac amodau arferol y cwmni/cwmnïau bysiau perthnasol.

Rhaid dangos y cerdyn bob amser ar gais arolygydd neu yrrwr. Nid yw'r cerdyn yn rhoi unrhyw hawliau eraill i chi heblaw'r hawliau sydd gan unrhyw deithiwr arall, ac nid yw ychwaith yn rhoi'r hawl i chi gael blaenoriaeth dros unrhyw deithiwr arall.

Ni all yr Awdurdod Lleol sy'n dosbarthu'r cerdyn dderbyn cyfrifoldeb am fethiant unrhyw wasanaeth bws i weithredu nac ychwaith os bydd cwmni bysiau yn gwrthod derbyn cerdyn teithio rhad.

Newid cyfeiriad neu newid amgylchiadau

Os bydd eich cyfeiriad neu unrhyw fanylion eraill yn newid, bydd rhaid i chi roi gwybod i'ch Awdurdod Lleol cyn gynted â phosibl.

Cymdeithion Teithio



Os oes Cydymaith yn cael teithio gyda chi ar hyn o bryd, bydd eich cerdyn newydd yn caniatáu i'r trefniant hwnnw barhau.



Gwybodaeth

Deddf Diogelu Data 1998 - Hysbysiad ynghylch Prosesu Teg

Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi gwybod i chi sut y caiff eich gwybodaeth bersonol ei defnyddio a'i rhannu â Llywodraeth Cynulliad Cymru, Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol, Awdurdodau Lleol, a chwmnïau bysiau, at ddibenion weinyddu cynllun teithio rhad Cymru a chymryd rhan ynddo.

Casglu gwybodaeth bersonol

Caiff gwybodaeth amdanoch ei chasglu mewn dwy ffordd. I ddechrau, pan fyddwch yn cyflwyno cais am gerdyn teithio rhad bydd yr Awdurdod Lleol yn prosesu eich cais ac yn cadw eich gwybodaeth mewn cronfa ddata. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ychwanegu at yr wybodaeth hon pan fydd yn derbyn gwybodaeth amdanoch oddi wrth y cwmni bysiau a fydd yn cofnodi manylion eich teithiau bws.

Yr wybodaeth bersonol a gedwir

Mae'r math o wybodaeth bersonol a gedwir yn cynnwys:

Manylion personol fel enw, cyfeiriad, dyddiad geni, a natur unrhyw anabledd (os yw hynny'n berthnasol)

Fotograff o ddeiliad y cerdyn Manylion teithiau Y rhesymau dros wrthod cerdyn (os yw hynny'n berthnasol)

Y defnydd a wneir o'r wybodaeth bersonol yma

Caiff yr wybodaeth ei defnyddio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn ad-dalu cwmnïau bysiau am nifer y teithiau rhad a wneir gan ddeiliaid y cardiau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn defnyddio gwybodaeth at ddibenion ymchwil, fel nifer y teithiau a wneir bob dydd, bob wythnos a phob mis, yr amseroedd mwyaf poblogaidd a lleiaf poblogaidd, ac ardal ddaearyddol teithiau etc. Bydd yr wybodaeth hon yn dylanwadu ar newidiadau i bolisiau trafniadaeth ac ar gyllid yn y dyfodol. Serch hynny, caiff yr wybodaeth a ddefnyddir at ddibenion ymchwil ei phrosesu mewn modd sy'n sicrhau nad yw'n bosibl adnabod deiliad unigol cardiau.

Mae'r Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol hefyd yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a gesglir ar gyfer ymgymryd ag ymchwil tebyg i'r hyn a wneir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac er mwyn cyfrifo'r swm i'w dalu i gwmnïau bysiau o fewn eu rhanbarthau hwy. Caiff yr wybodaeth a ddefnyddir at ddibenion ymchwil hefyd ei phrosesu mewn modd sy'n sicrhau nad yw'n bosibl adnabod deiliad unigol cardiau. Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio'r wybodaeth y mae'n ei chasglu er mwyn gweinyddu'r drafniadaeth leol y mae'n ei chefnogi o fewn ei ardal ei hun. Er enghraifft, at ddibenion: cynllunio a datblygu polisiau trafniadaeth darparu a rheoli gwasanaethau trafniadaeth ar gyfer cymunedau lleol monitro gwasanaethau trafniadaeth ac adrodd arnynt cynorthwyo cymunedau lleol a gweithredwyr trafniadaeth a rhoi arweiniad iddynt trefnu digwyddiadau yn ymwneud â thrafnidiaeth Caiff gwybodaeth hefyd ei defnyddio gan Awdurdodau Lleol i ad-dalu cwmnïau bysiau am deithiau rhad gan ddeiliaid cardiau. Caiff y gwaith gweinyddol a'r gwaith o gyfrifo taliadau ei wneud mewn modd sy'n sicrhau nad yw'n bosibl adnabod deiliad unigol cardiau. Bydd y cwmni bysiau yn hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol ynghylch manylion teithiau fel y gellir cyfrifo eu taliadau. Ni fyddant yn gweld yr wybodaeth bersonol a gedwir am ddeiliaid cardiau. Er y bydd manylion y teithiau y byddant yn eu cofnodi yn cynnwys rhifau unigryw deiliad y cardiau, ni fydd y cwmnïau bysiau yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon i adnabod deiliad unigol cardiau.

Sefydliadau a all rannu gwybodaeth bersonol

Gall gwybodaeth a gedwir gan y cwmnïau bysiau, Awdurdodau Lleol y Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol a Llywodraeth Cynulliad Cymru am ddeiliaid cardiau gael ei rhannu â sefydliadau eraill pan fydd y gyfraith yn caniatáu hynny, er enghraifft gellir ei rhannu â: y llywodraeth ganolog a llywodraeth leol at ddiben datblygu polisiau ar drafniadaeth a chynllunio a darparu gwasanaethau trafniadaeth gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau eraill ym maes iechyd a lles lle y mae angen rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu deiliad cardiau a, lle y bo'n briodol, â'r heddlu e.e. o dan amgylchiadau lle y mae rhywun yn cyflwyno cais twyllodrus neu'n defnyddio cerdyn teithio rhad drwy dwyll

Gwybodaeth arall

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol, Awdurdodau Lleol a chwmnïau bysiau yn ymdrin â'r manylion yr ydych yn eu darparu yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

Eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn rhoi rhai hawliau i unigolion o safbwynt yr wybodaeth a gedwir amdanynt gan unrhyw sefydliad. Mae'r hawliau hyn yn cynnwys: yr hawl i ofyn am gopiâu o'r wybodaeth bersonol a gedwir amdanynt ac i'w derbyn, er y gall gwybodaeth o fath arbennig gael ei chadw yn ôl yn gyfreithlon yr hawl, o dan rai amgylchiadau, i atal y gwaith o brosesu gwybodaeth bersonol os bydd gwneud hynny yn achosi niwed neu ofid yr hawl i ofyn am y wybodaeth anghywir gael ei chywiro Mae gennych hefyd hawl i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn goruchwylio Deddf Diogelu Data 1998, i asesu a yw'r gwaith o brosesu gwybodaeth bersonol yn debygol o gydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf.

Ceisio rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am yr wybodaeth bersonol a gasglwyd a'r defnydd ohoni, neu os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch cywirdeb gwybodaeth bersonol, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, dylech gysylltu â: y cwmni bysiau y gallech fod wedi teithio ag ef eich Awdurdod Lleol swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Ffôn 02920 826883

Llinell Gymorth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar 01625 545 745

ceir gwybodaeth hefyd yn www.informationcommissioner.gov.uk